

Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangywer

10 o Fedi, 2012

Presennol: : Dafydd Williams (Cadeirydd), Linda Morris (Is Gadeirydd), John Morris, Olwen Jones, Gwyn Roberts, Emyr Jones, Y Cyngorydd Alan Evans, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod, ac estynnodd groeso arbennig i Huw Antur ar ran Partneriaeth Penllyn . Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eleri Jones.
2. Rhoddodd Huw Antur gyflwyniad byr ar waith Partneriaeth Penllyn. Amlinellodd hanes ffurfio'r Bartneriaeth a'r gwaith sydd wedi ei wneud ers hynny. Dywedodd ei bod yn amser cyffrous iawn ar y Bartneriaeth sydd ar hyn o bryd yn :
 - datblygu gwaith darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd, a fydd yn arwain at gyflogi yn lleol ac apwyntio Clerc Gwaith rhan amser
 - yn trafod gyda Chyngor Gwynedd y syniad o ffurfio Fforwm Ardal a fydd yn arwain at benderfynu'n lleol ar wario cyllid sylweddol er lles yr ardal
 - yn defnyddio arian grant o £100,000 i greu canolfan i bobl weithio ynddi, i alluogi gwasanaethau fod yn bresennol ar gyfer trigolion Penllyn, ac i ddarparu cyngor ar gyfer y trigolion

Yn dilyn trafodaeth fer, diolchwyd yn gynnes iawn i Mr Huw Antur am ei gyflwyniad manwl.

3. Derbyniwyd Datganiad o Ddiddordeb gan Emyr Jones ym mater cynllunio NP5/70/LB25F.
4. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Mai 15, 2012

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

1. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd o gyfarfod Fforwm Ardal Meirionnydd o Un Llais Cymru ar 23 o Fai. Adroddodd y bu trafodaeth ar y toriad yn nifer yr Heddweision ym Meirionnydd a mynegwyd anfodlonrwydd cyffredinol ar y drefn newydd o ganoli'r gwasanaeth yn Nolgellau. Roedd yr Heddlu yn gweld gwerth mewn camerâu cylch cyfyng i leihau troseddau ac i ddal troseddwr. Cafwyd hefyd drafodaeth ar doriadau yn y gwasanaeth bysus a diffyg integreiddio amserlenni. Diolchodd y Cyngorydd Sir i'r Cadeirydd am ei adroddiad.
2. Yswiriant – derbyniwyd gwybodaeth i'r Cadeirydd a'r Clerc ddewis Cwmni Yswiriant Zurich, a oedd tua £100 yn llai na'r cwmni blaenorol.
3. Nid oes ymateb wedi dod hyd yn hyn oddi wrth y Parc Cenedlaethol yng nglyn a barn y Cyngor nad oes digon o bwys yn cael ei roi gan y Parc i farn leol.

6. Trafod Gohebiaeth :

Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun cyfieithu i grwpiau a phwyllgorau; rhybudd cau llwybr Rhif 51 am 6 mis; rhaglen waith mis Mehefin.

Parc Cenedlaethol Eryri

Cadarnhawyd penderfyniadau dros y ffôn ym Mehefin i gefnogi ceisiadau:

- Bryn yr Aber
- Fach ddeiliog (golau ar yr arwydd)
- Gilrhos (cais diwygiedig)

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau canlynol:

NP5/70/63D Cais ôl weithredol Glan y Gro i sefydlu'r arglawdd rhag llif, er bod amheupn a oedd yn ddigonol

NP5/70/7N Fach ddeiliog – lle parcio i 11 cerbyd ychwanegol

NP5/70/LB7L Fach ddeiliog – amrywiad i'r cais gan ychwanegu ffenest yn y to

NP5/70/LB25F Ffermdy Rhiwaedog - newid platar y tu mewn i adeilad cofrestredig

Cytunwyd i barhau i wrthwynebu'r cais canlynol:

NP5/70/ 15M Pant yr onnen – estyniad i'r toiled, adeiladu siop a llear gyfer warden, ychwanegu 10 safle

Derbyniwyd:

Gwybodaeth ar ymgynghoriad ar newid i ganllawiau cynllunio: Arallgyfeirio ar fferm; Llety Ymwelwyr

Rhestr dyddiadau pwyllgorau'r parc

Gorchymyn amrywio Gwarchod Coed Glan y Gro

Gwybodaeth am wrthod caniatâd i osod golau ar arwydd Fach ddeiliog

Gwybodaeth am ganiatâd i estyniad i'r Gilrhos

Un Llais Cymru

Derbyniwyd Rhaglen Hyfforddiant; copiâu o'r Llais; derbynneb tâl aelodaeth; gwybodaeth am y Gynhadledd Flynyddol; cynigion i'r Cyfarfod Blynyddol. Rhannwyd copi o'r llyfryn "Y Cynghorydd Da" i bob aelod. Cytunodd y Cadeirydd i gynrychioli'r Cyngor yn y Cyfarfod ardal ar ddiwedd mis Medi.

Arall

Derbyniwyd cais am gyfraniad oddi wrth Pwyllgor Apêl Llangywer a Rhosygwaliau – Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd. Cytunwyd i gyfrannu £500.

Cytunwyd i'r Clerc ymateb i'r Ymgynghoriad ar sieciau gan fynegi'r farn fod angen mwy nag un person i arwyddo.

Dosbarthwyd Arolwg Prifysgol Abertawe i'r Cynghorwyr.

Cytunwyd i'r Clerc ymateb yn enw'r Cyngor i Ymgynghoriad Betsi Cadwaladr gan fynegi gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth tu allan i oriau yn ysbyty Dolgellau. Mae'r Cyngor yn falch fod yr ysbyty yn Nolgellau yn cael uwchraddiad ac yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at wella'r ddarpariaeth yno. Cytunwyd i bwysu am wasanaeth ambiwlans 24 awr wedi ei leoli yn Y Bala.

Cytunwyd hefyd i fynegi'r angen yn Sir Feirionnydd am ddarpariaeth i'r sawl sy'n dioddef yn ddrwg o ddementia.

Cytunwyd i'r Clerc ymateb yn gadarnhaol i'r Ymgynghoriad Hawl i Gynghorau hybu Lles. Derbyniwyd gwybodaeth am grant Pentref SOS Loteri Fawr , Derbyniwyd rhaglen cyrsiau a gynigir gan Goleg Meirion Dwyfor a gosodwyd y rhaglen ar yr hysbysfwrdd.

7. Materion ariannol:

1. Derbyniwyd y praesept.
2. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
3. Cytunwyd i wneud cais am ad-daliad o gostau'r fynwent.
4. Rhoddwyd ystyriaeth i ffurflen Hacker Young a'r sylwadau am PAYE. Mae'r Cyngor wedi cofrestru gyda PAYE ers Ebrill 2012 a'r materion mewn trefn. Nid oedd TAW i'w hawlio yn y blynyddoedd diwethaf. Gan hynny, cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i arwyddo'r ffurflen.

8. Unrhyw Fater Arall

1. Cytunodd y Cynghorydd Sir i wneud ymholiadau am dorri gwrychoedd ar ochor y ffordd wrth Tŷ'n Gwrych ac o dan Fryn Hynod.
2. Cytunwyd i ysgrifennu i gefnogi'r cais am grant i uwchraddio'r toiledau yn y neuadd fel eu bod yn addas ar gyfer yr anabl.

Amser gorffen: 9.30pm